



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Craig Y Deryn
Llanegryn
Tywyn
Gwynedd
LL36 9SG**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Craig Y Deryn ym mhentref Llanegryn yng Ngwynedd. Fe agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2013 i wasanaethu pentrefi Abergynolwyn, Brynchrug, Llanegryn, a Llwyngwril.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 35% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin, yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 116 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan 3 athrawes amser llawn a 2 rhan-amser mewn pedwar dosbarth oed cymysg.

Mae oddeutu 13% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 24% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na chanrannau Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2013. Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Craig y Deryn yn 2015-2016 yn £3,812. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Craig y Deryn yn y 60fed safle allan o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yno
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn dda a dangosant gwrteisi, gofal a pharch mawr tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr
- bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n hynod o effeithiol
- safon yr addysgu yn gyson dda neu well
- staff yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd bron pob disgybl
- darpariaeth ardderchog ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- iddi ethos cynhwysol a gofalgar iawn lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar hybu safonau uchel
- y pennaeth wedi cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr
- aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol, ac yn dechrau herio'n synhwyrol a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- ganddi weithdrefnau trylwyr a chadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynlluniau clir ar gyfer gwella
- cydweithio effeithiol iawn yn bodoli gydag ystod o bartneriaethau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad y disgyblion

Argymhellion

- A1 Gwella presenoldeb
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain
- A3 Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr i fonitro a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf fedrau amrywiol, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i'r mwyafrif ohonynt. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn dangos medrau gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio cystrawennau cywir a geirfa eang, bwrpasol wrth drafod eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynegi barn yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio amrywiaeth cynyddol o eirfa addas, er enghraifft wrth gymharu awyrennau'r Almaen a Phrydain o fewn thema'r Ail Ryfel Byd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn hyderus ddwyieithog.

Mae bron pob disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn ymateb yn frwdfrydig i stori ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o neges stori, er enghraifft wrth wrando ar stori'r Bugail Da. Wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau effeithiol i geisio'u darllen yn annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod cynnwys llyfr yn ddeallus ac yn darllen ar goedd gyda mynegiant. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth o ffynonellau gwahanol yn eu gwersi hanes.

Mae bron pob disgybl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cyfleu gwybodaeth mewn cyfres o frawddegau syml, gan ddefnyddio prif lythyren ac atalnod llawn gyda pheth cysondeb. Mae'r rhan fwyaf yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac mae'r mwyafrif yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Gall y mwyafrif ddefnyddio ansoddeiriau syml i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu hunanbortread.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif yn amrywio cystrawen i ddechrau brawddegau yn effeithiol yn y ddwy iaith ac yn treiglo'n gywir ar adegau yn y Gymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn fedrus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu adroddiad am drychineb Aberfan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau mathemateg pen llawer yn datblygu'n dda ac maent yn defnyddio'u gallu yn effeithiol wrth ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau, er enghraifft wrth ddarganfod faint o ddefaid gwerth 5 ceiniog gall ffemwr ei brynu gyda swm penodol o arian. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu

dealltwriaeth gadarn o amser analog i'r awr, hanner a chwarter awr. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau gwahanol ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith. Gallant gasglu, cofnodi a chyflwyno data yn gywir a chreu siartiau a graffiau i gofnodi eu gwaith yn glir, er enghraifft i gyfleu hoff ffrwythau'r disgyblion yn y dosbarth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd ac yn cymhwyso eu medrau yn dda. Maent yn barod iawn i gynnig atebion, gan rannu eu canfyddiadau yn hyderus, a defnyddio termau mathemategol cywir. Mae llawer yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rannu, lluosu, mesur ac amcangyfrif yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn casglu a chynrychioli data yn gywir mewn tasgau rhif ac mewn tasgau ymchwilio. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae llawer yn dechrau defnyddio eu medrau yn dda i ddatrys problemau rhesymu, fel cyfrif cost mynd i wylïo gêm ryngwladol yng Nghaerdydd.

Gan mai dim ond canlyniadau dwy flynedd sydd ar gael ar gyfer y cyfnodau allweddol, nid yw'n deg adrodd ar dueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod. Fodd bynnag, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylïedig yn gyson yn is na'r canolrif mewn medrau iaith a mathemateg. Ers 2014, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi gwneud cynnydd da, yn enwedig yn y deilliant uwch, sydd wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwylïedig ac uwch wedi bod yn is na'r canolrif mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, ac eithrio mewn Saesneg, gwelir cynnydd amlwg ym mherfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwylïedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal cynnydd â disgyblion eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r niferoedd wedi bod yn fach, felly mae unrhyw gymhariaeth synhwyrol rhyngddynt a disgyblion eraill yn annibynadwy.

Lles: Digonol

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach a'r angen i gadw'n heini. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gwersi chwaraeon ac yn ystod y clwb rhedeg 'Dal i Fynd'.

Mae safon ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn uchel. Maent yn dangos parch mawr at ei gilydd ac at oedolion. Maent i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n hynod o effeithiol. Dangosant fwyhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Mae gallu llawer o'r disgyblion i wella gwaith eu hunain yn datblygu'n dda ymhob dosbarth.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn cael eu trin gyda pharch. Maent yn gwybod eu bod yn gallu troi at unrhyw oedolyn, ffrindiau neu'r 'Bydis Buarth' am gymorth pan fo angen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn ystyried sylwadau cyd-ddisgyblion yn briodol ac yn falch o'u hymdrechion wrth ddatblygu sustem wobrwyo'r ysgol a chodi arian i ysbyty arbenigol y llygaid yn Birmingham.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda i'r gymuned ehangach. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddori trigolion y pentrefi cyfagos drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau ac eisteddfodau lleol.

Mae lefel presenoldeb yr ysgol eleni yn dangos gwelliant amlwg. Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd presenoldeb dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cymharu'n dda ag ysgolion tebyg ac mae wedi bod yn is na'r canolrif. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd bron pob disgybl. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen, y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Trwy gynllunio ar y cyd, mae'r athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu a ddarperir yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a medrau'r disgyblion yn dda. Mae'r cynlluniau'n fanwl ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhif, llythrennedd a meddwl ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Cyfoethogir y cwricwlwm ymhellach trwy gynnig amryw brofiadau allgyrsiol diddorol i'r disgyblion, er enghraifft cyrsiau golff a chlwb coginio.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Caiff y disgyblion gyfleoedd i astudio gwaith nifer o artistiaid ac awduron o Gymru, gan gynnwys gwaith yr arlunydd lleol Elin Crowley. Maent yn dysgu chwedlau Cymreig, yn ymweld ag ardaloedd lleol ac yn cystadlu'n llwyddiannus mewn sawl eisteddfod yn flynyddol. Mae'r holl brofiadau hyn yn hybu eu dealltwriaeth am Gymru, eu pobl a'u thraddodiadau yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hybu'n dda. Yn ddiweddar, bu'r disgyblion yn cyfnewid blogiau gyda dau ddisgybl fu'n teithio o gwmpas y byd. Mae hyn wedi codi eu hymwybyddiaeth am fywyd mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Fietnam, Sri Lanka a De'r Affrig yn effeithiol. Mae'r clwb garddio yn tyfu llyisiau yng ngardd yr ysgol a'r cogydd yn eu defnyddio mewn prydau bwyd. Mae hyn yn annog y disgyblion i fwyta'n iach yn llwyddiannus.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well ym mhob dosbarth. Mae pob athro yn defnyddio amrywiaeth ddiddorol o ddulliau addysgu sy'n ennyn cyfranogiad a

diddordeb y disgyblion yn dda. Caiff y gwersi eu cynllunio'n ddychmygus ac mae athrawon yn eu haddasu'n briodol i ymateb i anghenion penodol y disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl yn gyson yn y gwersi. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog gyda chyflymder da. Fodd bynnag, mae tueddiad yng nghyfnod allweddol 2 i or-arwain y disgyblion ar brydau. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth ac mae'r holl oedolion yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson. Manteisia'r athrawon yn dda ar y tîm o gymorthyddion sy'n rhoi cymorth effeithiol iawn i ddisgyblion a'u helpu i gwblhau eu tasgau.

Derbynia'r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu hymdrechion ym mhob dosbarth. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac yn ysgrifennu sylwadau canmoliaethus a chefnogol iddynt. Fodd bynnag, anghyson yw safon y sylwadau adeiladol sy'n esbonio i'r disgyblion sut i wella'r gwaith. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Caiff cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol ei olrhain yn ofalus er mwyn adnabod unrhyw un sy'n tangyflawni a darperir cymorth ychwanegol a phriodol iddynt yn ôl yr angen. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol iawn wrth gynllunio gwaith pellach.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni ar gynnydd a chyflawniad eu plant sy'n bodloni gofynion statudol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn gadarn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgyblion bregus yn hynod effeithiol. Mae'r rhaglen gefnogi ar eu cyfer yn arbennig o effeithiol ac yn gwneud cyfraniad eithriadol at godi hunanhyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion hyn.

Gwneir defnydd buddiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r disgyblion, er enghraifft yr heddlu, y seicolegydd â'r therapydd llafaredd. Mae'r cydweithio rhyngddynt a'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y disgyblion.

Mae gweithdrefnau rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hybu presenoldeb da yn dechrau dwyn ffrwyth, â'r disgyblion a'u rhieni yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn dangod tuedd ar i fyny hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn hon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardderchog. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac

asesiadau athrawon i adnabod y disgyblion yn gynnar, a darperir rhaglenni cefnogi hynod lwyddiannus ar eu cyfer. Dengys system olrhain cynnydd drwyadl yr ysgol fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl dros amser.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalg ar iawn, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm eang i'r holl ddisgyblion. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd tramor.

Mae'r adeilad o ansawdd rhagorol. Mae'r mannau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd uchel yn yr ysgol, sy'n cael eu defnyddio'n hynod effeithiol. Mae arddangosfeydd symbylol a deniadol o waith athrawon a chyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol sy'n cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Maent hefyd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar hybu safonau uchel. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Caiff ei chefnogi'n dda gan y dirprwy bennaeth ac mae holl aelodau'r staff yn rhannu'r un gwerthoedd ynghylch addysg a lles y disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac mae hyn wedi arwain at gynnydd cyflym yn y safonau a gyflawnir mewn byr amser. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae strwythurau a pholisïau clir ar waith ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol.

Fe gynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae agendâu yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle ac yn cynnwys targedau perthnasol i'r staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac mae mwyafrif o ofynion asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fwy effeithiol, ond nid yw'r arfer hon wedi ei gwreiddio'n llawn hyd yma.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwadau gwersi, data perfformiad a barn rhieni ac eraill. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac arfarnol sy'n rhoi darlun eglur a gonest o sefyllfa'r ysgol ar hyn o bryd. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn bwrpasol ar gyfer gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae gan yr ysgol dystiolaeth i ddangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth, yn arbennig yn y cynnydd a welir yng nghyflawniad disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cyswllt clir yn bodoli rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r sylw a roddir i wella medrau sillafu a darllen Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r cynllun gwella yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant heriol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion o fewn terfynau amser sy'n addas ar gyfer cwblhau'r tasgau. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn y blaenoriaethau yn effeithiol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni ac aelodau o'r gymuned. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn ac yn cefnogi'r ysgol yn ymarferol ac yn ariannol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant amlwg yng nghyflenwad ei hadnoddau, fel wal ddringo i hybu ffitrwydd a datblygu medrau corfforol y disgyblion. Mae'r staff yn hysbysu rhieni yn dda am weithdrefnau'r ysgol, drwy ddefnyddio'r wefan, anfon negeseuon testun a llythyru rheolaidd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang, a thrwy sefydlu ethos agored a chroesawgar llwyddir i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda'r holl gymunedau y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyngherddau, eisteddfodau a gweithgarwch mewn eglwysi a chapeli lleol, sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithredu'n briodol o fewn eu gymuned.

Mae system effeithiol o gymedroli wedi ei sefydlu gydag ysgolion eraill i gynhyrchu proffiliau pwrpasol a defnyddiol i gynorthwyo athrawon wrth iddynt safoni gwaith y disgyblion. Mae cysylltiadau buddiol gyda'r ysgol uwchradd leol. Mae'r rhain yn effeithiol wrth helpu disgyblion drosglwyddo'n esmwyth rhwng un sector a'r llall ac wrth baratoi'r disgyblion yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd ac mae cyfraniad y staff cynorthwyol yn hynod effeithiol wrth annog a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ac mae hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac mae trefniadau addas yn eu lle i sicrhau amser digyswllt iddynt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd a wneir o'r ardal allanol, y cae chwarae, neuadd yr ysgol a'r ardal chwaraeon amlbwrpas.

Mae'r staff yn gweithredu'n effeithiol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu medrau athrawon i werthuso gwaith y disgyblion yn gywir. Ceir cydweithio agos ag ysgolion eraill i rannu arfer dda, fel datblygu strategaethau i wella medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i gynllunio gwariant. Mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnal disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd sylweddol yn safonau disgyblion, yn arbennig y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

O ystyried y ddarpariaeth, y cynnydd a safonau mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6612228 - Ysgol Craig y Deryn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	112
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	13.5
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	*	*	15	13
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	*	*	26.7	61.5
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	15	13
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	40.0	61.5
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	6.7	53.8
Chwarter meincnod	*	*	4	1
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	15	13
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	73.3	92.3
Chwarter meincnod	*	*	4	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	0.0	53.8
Chwarter meincnod	*	*	4	1
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	15	13
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	33.3	92.3
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	0.0	69.2
Chwarter meincnod	*	*	4	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6612228 - Ysgol Craig y Deryn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

112

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

13.5

Grŵp PYD

2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	*	*	15	18
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	*	*	53.3	77.8
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	15	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	86.7	72.2
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	33.3	33.3
Chwarter meincnod	*	*	3	4
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	13	17
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	76.9	82.4
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	38.5	29.4
Chwarter meincnod	*	*	2	3
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	15	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	60.0	83.3
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	15	18
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	53.3	88.9
Chwarter meincnod	*	*	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	38.9
Chwarter meincnod	*	*	*	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	52	52 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	52	51 98%	1 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	52	50 96%	2 4%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	52	52 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	52	45 87%	7 13%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	52	49 94%	3 6%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	52	52 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	52	52 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	52	50 96%	2 4%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	52	52 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	52	31 60%	21 40%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	52	44 85%	8 15%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	45	21 47%	19 42%	5 11%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	45	25 56%	18 40%	1 2%	1 2%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	44	22 50%	19 43%	2 5%	1 2%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	42	19 45%	21 50%	2 5%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	42	12 29%	27 64%	2 5%	1 2%	3	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	44	25 57%	16 36%	3 7%	0 0%	1	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	45	25 56%	20 44%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	38	16 42%	18 47%	4 11%	0 0%	7	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	39	15 38%	17 44%	5 13%	2 5%	6	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		61%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	43	18 42%	22 51%	1 2%	2 5%	2	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	43	28 65%	14 33%	1 2%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	35	15 43%	17 49%	1 3%	2 6%	10	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	44	18 41%	20 45%	3 7%	3 7%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		50%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	45	19 42%	19 42%	6 13%	1 2%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	38	10 26%	22 58%	5 13%	1 3%	7	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	42	16 38%	23 55%	3 7%	0 0%	3	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	26	11 42%	13 50%	1 4%	1 4%	18	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
There is a good range of activities including trips or visits.	41	17 41%	17 41%	5 12%	2 5%	4	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
The school is well run.	43	18 42%	16 37%	5 12%	4 9%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Rhian Jones	Arolygydd Tîm
David Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
David Kenneth Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Jennifer Bradbury	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.